**Oedfa Sul yr Urdd 2014 ar gyfer plant cynradd**

**Intrada**: Moli wnawn ein Harglwydd Dduw (Glas Glas Blaned rhif 3)

**Arweinydd** :
Croeso i chi i Oedfa'r Urdd 2014. Eleni cofiwn fod can mlynedd wedi mynd heibio ers cychwyn y Rhyfel Mawr, a gafodd ei alw wedyn yn Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth llawer o wledydd i frwydro ar faes y gâd, a lladdwyd miliynau o bobl, gyda'r mwyafrif ohonynt heb syniad beth oedd achos y brwydro. Yn yr oedfa hon, cofiwn am erchyllterau'r gorffennol, a hynny ym mhob rhyfel, a gweddiwn y bydd llywodraethau'r byd yn chwilio am ffyrdd doethach i ddatrys anghydfod ac i weithio o blaid heddwch a chyfiawnder.

**Gweddi**
Arglwydd Iesu, helpa ni i blygu o'th flaen nawr, ac i feddwl am y byd eleni sy'n cofio cychwyn y Rhyfel Mawr gan mlynedd yn ôl yn 1914. Rydym yn sylweddoli mai Duw Heddwch wyt ti, ac rydym yn aml yn galw Iesu yn Dywysog Tangnefedd. Bendithia'n hoedfa wrth i ni ofyn hyn yn enw Iesu. Amen.

**Emyn** **Ton:** Dowch Blant Bychain (C.Ff 336)
Awn at Iesu, awn yn llon i'w foli
Croeso gawn, croeso gawn,
Mae e'n falch o dderbyn moliant plentyn,
Croeso gawn, croeso gawn.

Nid yw Iesu'n hoffi gweld cenfigen
Yn ei blant, yn ei blant,
Rhannodd ef yr hyn ry'm wir ei angen
Dros ei blant, dros ei blant.

Galwodd arnom ni i ddysgu maddau
Pethau cas, drwg eu blas,
Ac i wrthod byw y bywyd creulon
Drwy ei ras, drwy ei ras. DIJ

**Arweinydd**: Mae helpu rhywun arall yn ganolog i ffordd Iesu Grist. Yn nameg y Samariad Trugarog, cawn gyfle i feddwl sut y gallem wneud hynny.

**Darlleniad:** Luc 10:30-37 Dameg y Samariad Trugarog.

**Arweinydd**: Mae'r stori nesaf i'w darllen mewn sawl man. Wrth i ni wrando ar hanes Eryr Penllys, pennaeth un o lwythau'r Indiaid Cochion yn yr Amerig, gallwn feddwl sut y byddem ni yn helpu i gael heddwch i'r byd.

**Stori 1 Problemau Eryr Penllys**
Flynyddoedd lawer yn ôl, roedd llwyth o Indiaid Cochion yn byw yng Ngogledd America, ac roedd ganddynt un pennaeth a roedd phawb yn ei barchu. Ei enw oedd Eryr Penllys, Nid oedd pawb yn byw yn yr un ardal, ac roedd pebyll yr Indiaid yn ffurfio pentrefi gwahanol. Byddent yn byw drwy hela, a byddai arweinwyr y pentrefi yn dod i adrodd eu hanes wrth Eryr Penllys bob wythnos. Roedd un pentref yn arbennig o anodd i'w drafod, gan fod yr Indiaid yno yn ymladd ymysg ei gilydd yn aml, a neb yn cadw trefn ar y pentref. Roeddent yn gadael eu sbwriel ymhobman, a'r ardal yn fochaidd.

Problem arall gan Eryr Penllys oedd ei fod yn mynd yn hen, ac yn methu dangos ei awdurdod, fel yr arferai wneud. Gwyddai bod yn rhaid iddo ddewis un o'i feibion i fod yn bennaeth yn ei le, ac nid oedd yn sicr pwy i'w ddewis. Un noson cafodd Eryr Penllys syniad diddorol, a phenderfynnodd rhoi prawf ar y tri mab mwyaf tebygol o fod yn bennaeth. Galwodd Llew Cydnerth, sef y mab hynaf ato a'i anfon at y pentref o'r

Indiaid Cochion drwg a'i gymell i roi trefn arnynt. Aeth y Llew Cydnerth gyda'i gyfeillion agosaf, ac roedd pob un ohonynt yn filwyr dewr a chryf. Cododd ei babell fawr, a hawliodd sylw'r pentrefwyr oll. Eglurodd mai ef oedd mab hynaf y pennaeth a bod hawl ganddo i gosbi pwy bynnag oedd yn euog o ymladd, am adael sbwriel neu fethu cadw pabell daclus. Ni wnaeth y pentrefwyr hyn ddangos unrhyw barch, ond cario ymlaen fel cynt. Er y bygwth a'r dwrdio, roedd Llew Cydnerth yn fethiant, ac aeth adref at ei dad, gan ddweud fod y pentref yn un amhosibl i'w reoli.

Galwodd Eryr Penllys ar Arthwen Amyneddgar, yr ail fab, ac aeth hwnnw draw gyda'i gyfeillion a chodi ei babell. Galwodd Arthwen Amyneddgar y pentrefwyr ynghyd a threfnu bod pawb yn dod i'w sgyrsiau dyddiol. Safodd yn y canol a threuliodd amser yn egluro pwysigrwydd gofal a glendid, trefn a thaclusrwydd a bod cadw'r heddwch yn bwysig i bawb. Ar ôl wythnos aeth Arthwen Amyneddgar adref at ei dad gan ddweud nad oedd unrhyw un wedi gwrando arno, a bod y lle mor ymladdgar, gwyllt a budr ag erioed.

Yna, gofynnodd Eryr Penllys i Tarw Hawddgar, y trydydd mab fynd i'r pentref, ac aeth hwnnw a'i deulu gydag ef. Siaradodd gyda phawb, ond ni wnaeth ymddangos fel milwr nac fel athro. Yn hytrach, aeth Tarw Hawddgar ati i osod ei babell yn daclus, a phlannu gardd hyfryd o gwmpas ei babell. Ar ôl bob pryd bwyd, byddai yn claddu esgyrn a gweddillion y pryd bwyd, tu allan i'r pentref, gofalodd fod ei blant yn ymolchi yn yr afon gerllaw, a bod croeso i bawb ar ei aelwyd. Siaradai Tarw Hawddgar yn gyfeillgar gyda phawb, heb fygwth na rhegi. Roedd yn esiampl o gymydog da, a hoffodd pawb ef. O fewn dau ddiwrnod roedd y pentrefwyr gerllaw yn hoffi'r syniad o babell lan a thaclus, gan gopïo ffordd Tarw Hawddgar o fyw. Roedd plant y pebyll cyfagos yn gofyn am fynd i chwarae gyda theulu'r trydydd mab, a'r gwragedd yn gofyn am gyngor sut i goginio prydau bwyd gwahanol. O fewn yr wythnos roedd y pentref i gyd yn lân ac roedd cyfeillgarwch wedi disodli ffraeo yn eu plith.

Arhosodd yno am fis, nes y daeth Eryr Penllys i weld beth oedd wedi digwydd, gan ofni'r gwaethaf, sef bod ei fab wedi cael ei ladd. Cafodd sioc enfawr o weld cymuned drefnus a phawb yn byw'n heddychlon. Gwyddai Eryr Penllys yn iawn mai Tarw Hawddgar fyddai yn ei olynu fel arweinydd yr Indiaid Cochion, a byddai dyfodol y llwyth yn ddiogel yn ei ddwylo.

**Arweinydd:**
Gwers hanes Eryr Penllys yw bod angen cynnig esiampl dda i alw pobl i fyw gyda'i gilydd yn ddedwydd. Mae'r eglwys Gristnogol yn cyhoeddi mai Iesu yw'r esiampl orau sydd, a'i fod ef yn ein galw i fyw yn debyg iddo. Mae'r emyn nesaf yn addasiad o eiriau cyfarwydd, ac yn ein helpu i feddwl am ein cyfle a'n cyfrifoldeb i fyw yn debyg i Iesu.

**Emyn**: Alaw: Eleazar C.Ff 588

O na bawn yn fwy tebyg, i Iesu Grist yn byw
Gan garu ein cymdogion a charu'r Arglwydd Dduw,
Dangosodd Iesu inni, fod pobl ym mhob man
Yn hynod werthfawr iddo, yr unig, gwael a'r gwan.

O na bawn fel Iesu Grist, O na bawn fel Iesu Grist
Rhai sy'n barod i helpu, ac yn ffrind i'r tlawd a'r trist.

Mae Iesu'n caru pob un, beth bynnag yw eu hiaith
Mae'n gwahodd ni i'w ddilyn wrth fynd ar hyd ein taith.
Mae'r sawl sy'n dilyn Iesu, yn deulu oll ynghyd
Yn ferched ac yn fechgyn, ar draws holl wledydd byd.

Nid yw am weld ei deulu, yn greulon nac yn ddrwg
Yn maddau, nid yn digio, pob wyneb yn ddi-wg,

Mae Iesu'n gwahodd ninnau i fyw yn llon ein gwedd,
Drwy estyn llaw agored a hawlio byd o hedd.

DIJ

Arweinydd: Rydym yn clywed cymaint heddiw am fwlian y nein byd. Gall ddigwydd ar iard yr ysgol, yn y gweithle, neu pan fydd gwledydd yn ymladd ei gilydd. Wrth i ni wrando ar hanes pysgodyn bach gwahanol, gallwn feddwl am bwysigrwydd bod yn grwp o bobl sy'n gwrthsefyll y gelynion mawr drwg.

**Stori 2 'Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain'**
Byddwn yn aml yn gweld pysgod yn nofio yn y môr. Weithiau byddant yn cael hwyl ac yn creu patrymau hardd, ond ar adegau eraill, maent yn nofio'n wyllt ac yn amlwg yn chwilio am le i guddio. Dyma'r adeg maent yn sylweddoli fod perygl mawr, a bod pysgodyn llawer mwy yn chwilio am bysgod bach i fwyta.

Ymysg y pysgod bach, roedd un gwyn, ac yn destun sbort y pysgod bach tywyll eu lliw. Doedd neb yn siwr beth i wneud ohono, ac am ei fod yn wahanol, roeddent yn cadw draw oddi wrtho. Hoffent ei alw yn Wynwyn, ac nid oedd yn hoffi'r enw hwnnw. Nofiai yn dawel ar ei ben ei hun, yn unig ac yn ofnus yng ngheg yr ogof fach.

Yn sydyn, sylweddolodd fod y pysgod bach tywyll yn nofio tuag ato, ac i mewn i'r ogof. Roedd ofn ar bawb a deallodd Wynwyn, fod y gweddill wedi cael eu gyrru gan siarc creulon. Nid oedd hwnnw yn fodlon ar golli ei bryd bwyd o bysgod bach, ac arhosai am amser hir yn agos i geg yr ogof. Gwyddai'r pysgod bach na allent aros yno am byth, gan nad oedd dim yn tyfu yn yr ogof a fyddai'n fwyd iddynt hwy.

Galwodd Wynwyn am sylw pawb a chynnig cynllun diddorol. Roedd am i bawb nofio mewn trefn fel bod y pysgod gyda'i gilydd yn ymddangos ar siap morfil mawr, gyda Wynwyn yn nofio yn y man lle byddai llygad golau'r morfil. Cytunodd pawb i gydweithio, a phan ddaethant allan, credai'r siarc ei fod yn gweld morfil mawr yn nofio allan. Nofiodd yntau nerth ei gynffon hir, rhag cael ei ddal gan y morfil. Diolchodd y pysgod bach i Wynwyn am ei syniad gwych ac am rhoi trefn ar bawb. O hynny allan, roedd pawb am ei gwmni, ac roedd yntau yn gwbl hapus yn eu cwmni. Ni ddaeth y siarc barus yn ôl i'r traeth hwnnw byth eto rhag ofn y byddai'n gweld y morfil rhyfeddol gyda'r llygad gwyn yn ei herio.

**Arweinydd**: Mae'n anodd i ni sylweddoli y gall y lleiaf ohonom, fod yn rhan o gorff cryf. Ar ôl y gwasaneth heddiw, beth am i ni dynnu llun, neu ysgrifennu'r stori yn ein geiriau ein hunain, a chwilio am ffordd sut y gallwn fod yn gryf, er ein bod yn fach. Cyn gorffen, beth am rannu gweddi.

**Gweddi:**
Arglwydd Iesu, diolch i ti am roi lle i blant, ac am eu croesawu i fod yn ffrindiau i ti. Diolch am deulu a chyfeillion, am athrawon a chymdogion. Cofiwn heddiw am blant Cymru, ac am waith Urdd Gobaith Cymru. Gwerthfawrogwn bopeth sy'n cael ei drefnu ar ein cyfer, mewn adran ac aelwyd, yn y gwersylloedd, yr eisteddfodau ac ar y meysydd chwarae.

Cofiwn am blant y byd, rhai yn gyfoethog gyda gormod o fwyd a dillad, tra bod eraill yn byw heb ddigon o unrhyw beth. Eleni, gweddiwn dros y plant sydd yn byw yng nghanol rhyfel, ac ymhell o'u cartrefi ac wedi colli aelodau o'u teuluoedd. Mae'r byd yn medru bod yn le annheg a chreulon i lawer, a ninnau ddim yn sylweddoli ein bod mor ffodus yn ein cartrefi clyd a'n cymunedau heddychlon.

Gweddiwn heddiw am heddwch yn ein byd ac y bydd i bob plentyn gael cyfle i fyw yn hapus gyda'u teuluoedd. Diolch am bob mudiad sy'n ceisio rhannu bwyd a dŵr yn y gwersylloedd diogelwch, ac am bob llais sy'n galw am degwch yn ein byd.Clyw ein gweddi, yn enw Iesu. Amen.

**Emyn** C.Ff. 867 Heddwch ar ddaear lawr

**Y Fendith**.
Ar derfyn ein gwasanaeth Arglwydd, gofynnwn am dy fendith fel y gallwn ni a phobloedd y byd gerdded ymlaen mewn hedd a harmoni. Amen.

***Emynau eraill***
'Cofia bob amser, cofia bob tro' Glas Glas Blaned rhif 1 gyda phenillion ychwanegol -

Diolch am ffrindiau mwyn, sy'n garedig a di-gŵyn.

Diolch am heddwch wnawn, am hawl i fyw a bywyd llawn.

'Os wyt ddu, neu os wyt wyn' Glas Glas Blaned rhif 81

**Oedfa Sul yr Urdd 2014 Uwchradd / Cyffredinol**

(*Gellir addasu'r oedfa hon, i gwrdd â'r hyn sy'n berthnasol yn eich sefyllfa chwi. Ceir defnyddiau ar gyfer oedfa oedran cynradd ar ôl yr oedfa hon. Nid oes angen defnyddio pob elfen o'r gwasanaethau hyn, ond i'r sawl sy'n eu trefnu'n lleol i ddewis yn ôl y gofyn.* )

**Intrada**: Abba fe'th addolwn. (C.Ff. 53)

**Arweinydd** :
Croeso i chi i Oedfa'r Urdd 2014. Eleni cofiwn fod can mlynedd wedi mynd heibio ers cychwyn y Rhyfel Mawr, a gafodd ei alw wedyn yn Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth llawer o wledydd i frwydro ar faes y gâd, a lladdwyd miliynau o bobl, gyda'r mwyafrif ohonynt heb syniad beth oedd achos y brwydro. Yn yr oedfa hon, cofiwn am erchyllterau'r gorffennol, a hynny ym mhob rhyfel, a gweddiwn y bydd llywodraethau'r byd yn chwilio am ffyrdd doethach i ddatrys anghydfod ac i weithio o blaid heddwch a chyfiawnder.

**Gweddiwn**: Sanctaidd Dduw, plygwn o'th flaen gan ofyn am dy fendith a'th arweiniad wrth i ni gydnabod creulondeb dyn at ei gyd-ddyn. Deisyfwn fodd i hyrwyddo byd a fydd yn ymbellhau o'r tueddiad i ddathlu rhyfel a chasineb. Amen.

**Emyn**. C.Ff 817 Gwrando di, O Dduw'r cenhedloedd

**Darllennydd 1** Yn ystod 2014 gwelwyd llawer o anghyfiawnder trais a gwrthdaro milwrol mewn gwledydd fel yr Wcrain, Syria, Irac, a'r Llain Orllewinol. Bydd pob crefydd am hyrwyddo cyfiawnder a heddwch. Beth am wrando ar ran o Salm 72 a gofyn beth fydd gan Iddewon heddiw i'w ddweud am adran fel hon.

**Darllen** - Salm 72: 1-7

**Arweinydd :**
Bydd llyfrau hanes yn nodi'r hyn a ddigwyddodd gan mlynedd yn ôl pan gychwynodd y Rhyfel Byd Cyntaf. Saethwyd yr Arch Ddug Ferdinand a'i wraig yn Sarajavo, Gwlad Pwyl. Roedd llawer o bobl yn aflonydd oherwydd anhegwch gwleidyddol mewn sawl gwlad. Aeth gwrthryfelwyr ati i saethu Ferdinand, ac yn rhyfeddol, gwnaeth gyrrwr ei gar gamgymeriad, gan stopio union gyferbyn ag un o'r gwrthryfelwyr.

Un bwled fechan fach oedd hi
Un gwn, un gŵr a dyna ni.
Wrth saethu Ferdinand a'i wraig
Rhyddhawyd erchyllderau'r ddraig

Pam fod 'na ryfel? Pam y lladd?
Pam rhaid aberthu'r isel-radd?
Daeth uffern ddu ar ddaear Duw
A gwaedu byd drwy ddifa'r byw.

Ar faes y gâd, bu mellt pob dryll
Yn llosgi'r cnawd yn greithiau hyll,
A chyrff y milwyr ger y ffos
Yn angof yn nhywyllwch nos.

Ffarwel i ddiniweidrwydd ddoe,
Ffarwel i drefn ac awr o hoe,
Mae rhuthr gwyllt y byd a'i sŵn
Yn dyst bod gwaed ar safnau'r cŵn. DIJ

**Emyn** C.Ff 814 Ein gwlad a'n pobl gofiwn nawr

**Arweinydd:**
Bydd llawer yn cofio am yr Eisteddfod Genedlaethol Penbedw fel Eisteddfod y Gadair Ddu. Enillydd y gadair oedd Ellis Humphrey Evans, 13 Ionawr1887 – 31 Gorffennaf 1917) sy'n cael ei adnabod fel Hedd Wyn, ond roedd wedi ei ladd, ychydig amser ynghynt. Nid oedd am fynd i ryfel, ond bu'r pwysau arno i wneud, gan ei gyfoedion gwerinol yn Nhrawsfydydd a chan yr enwadau Anghydffurfiol hefyd. Ymysg ei gerddi ceir hon, sy'n dwyn y teitl 'Rhyfel'.

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,
A Duw ar drai ar orwel pell;
O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod hell.

Pan deimlodd fyned ymaith Dduw
Cyfododd gledd i ladd ei frawd;
Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw,
A'i gysgod ar fythynnod tlawd.

Mae'r hen delynau genid gynt,
Ynghrog ar gangau'r helyg draw,
A gwaedd y bechgyn lond y gwynt,
A'u gwaed yn gymysg efo'r glaw

(*Cyflwyniad/ deilaog rhwng yr Arweinydd a hen filwr – a brofodd niwed difrifol yn ystod Rhyfel Byd Cyntaf*)

**Arweinydd:**
Bu farw Hedd Wyn, fel miloedd eraill. Cafodd eraill eu niweidio'n erchyll. Un o'r rhain oedd Thomas Thomas fan hyn. Beth am ei holi, Esgusodwch fi, ga i ofyn pwy y'ch chi, ac o ble ydych chi'n dod?

**Thomas Thomas**
Helo 'na. Thomas Thomas yw fy enw i, cefais fy ngeni yn ardal Llanboidy ac fel fy mrawd William, roedd yn rhaid i mi enlistio yn y gatrawd fel milwr. Wn i ddim a oeddwn yn deall pam fod yn rhaid i mi fynd, rhywbeth am ymladd dros degwch a chyfiawnder. Dydw i ddim yn siwr mod i'n deall beth yw hynny, ond roedd yn gyfle i mi weld y byd a dysgu mwy am feiciau modur a cheir. yn ein rhan ni o Sir Gaerfyrddin, doedd na ddim llawer o gyffro, ac roedd bois eraill yn mynd, felly es i a'm brawd William. Cafodd Jim, fy mrawd hynaf aros adre, dydw i ddim yn siwr pam hynny chwaith.

**Arweinydd** : Dywedwch Thomos, beth ddigwyddodd i chi.

**Thomas** : Roedd y sŵn yn ofnadwy, a'r lladd yn erchyll. Roeddwn i ar y gynnau mawr yn y cefn, ond cefais fy nal gan shrapnel. Collais rhan o'm penglog, a bum yn anymwybodol am fisoedd. Fues i fyth yr un fath wedyn. Roedd fy meddwl a'm corff wedi eu niweidio'n wael. Cludwyd fi nol i Brydain, ond dydw i ddim yn cofio llawer.

**Arweinydd**: Ai dyna ddiwedd eich gobeithion Thomas?

**Thomas** Nage, es i, i fyw yn Llundain, i weithio fel un yn trwsio teipiaduron. Roedd clywed awyrennau Prydain yn hedfan mas i fomio'r Almaen yn ofnadwy. Roeddwn yn gallu dychmygu beth oedd yn digwydd yn Dresden. Hefyd un o'r profiadau anoddaf yn fy mywyd oedd derbyn y newyddion fod fy unig fab wedi cael ei ladd yn Crete ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Does 'na ddim sens mewn rhyfel – oes 'na?

**Arweinydd**: Un o Gymry amlwg yr 20g. oedd y Parchg Lewis Valentine. Aeth allan i faes y gâd fel llawer o fyfyrwyr diwinyddol eraill, a dychwelyd fel heddychwr o argyhoeddiad. Cyhoeddodd rai o'i atgofion yn 'Dyddiadur Milwr', a bu'n genedlaetholwr brwd ar hyd ei oes. Beth am wrando ar ychydig o'i eiriau cyn canu ei emyn godidog.

*(Os carai rhywrai roi sylw helaethach iddo – fel rhan o'r oedfa, ceir torreth o ddefnyddiau ac yn arbennig cofiant iddo gan Arwel Vittle. 'Valentine' Gwasg y Lolfa).*

**Atgof 3** Lewis Valentine
Roedd hi'n anodd peidio mynd allan i Ffrainc a chefnogi'r milwyr. Cofiwch, roedd bywyd y milwyr yn ofnadwy. Rwy'n siwr mod i'n deall beth yw ystyr y frawddeg sy'n sôn am 'uffern ar y ddaear'. Bechgyn dewr yn cael eu darnio yn gorff, meddwl ac enaid'. Cafodd effaith ofnadwy arnaf, a deuthum adref yn heddychwr o argyhoeddiad. Dyna pam rwyf am weld pob gwlad yn cael eu parchu, a neb yn ddibris o fywyd. Beth am rannu profiad fy emyn i. Beth am ganu'r emyn nawr.

**Emyn** C.Ff 852 Dros Gymru'n gwlad o Dad dyrchafwn gri

**Arweinydd**
Un o enwogion Cymru a fu allan ar y cyfandir yn ystod y Rhyfel Fawr oedd Albert Cynan Evans, ac ar ôl dychwelyd, ac ystyried ei brofiadau, ysgrifennodd y gerdd hon. 'Cyfamod Hedd'

**Darllenydd**

Ysbryd Duw, a fu'n ymsymud
Dros ddyfnderau'r tryblith mawr,
Gan ddwyn bywyd a phrydferthwch
Allan i oleuni mawr;
Dros y byd a'i dryblith heddiw
Chwyth drachefn, O Anadl Iôr,
Nes bod heddwch fel yr afon
A chyfiawnder fel y môr.

Ysbryd Duw, yng nghwlwm cymod
Ac yn rhwymau Cariad Rhad,
Cydia galon mwy wrth galon,
Cydia wlad yng nghlwm wrth wlad;
Dyro inni edifeirwch
Am bob cas a malais trist
Cod ein golwg oddi wrth hunain
At orwelion Teyrnas Crist.

Ysbryd Duw, er mwyn y beddau
Ar bellennig fryn a phant,
Ac er mwyn calonnau ysig,
Ac er mwyn ein hannwyl blant.
Ac er mwyn yr Hwn weddiodd
Dros elynion dan Ei glwy,
Tro'n hwynebau i Galfaria
Fel na ddysgont ryfel mwy.

Albert Cynan Evans.

**Arweinydd**
Mae'n ymddangos nad oes gan ddyn, y modd i oresgyn gwrthdaro, yn wyneb anghyfiawnder, heb godi arfau. A fyddwch yn cydymdeimlo gyda'r sawl sy'n codi arfau am resymau dealladwy, neu a

fyddwch yn barotach i dderbyn fod rhyfel yn anorfod, ac mai swyddogaeth y gwledydd tu fas i'r gwrthdaro yw darparu cefnogaeth i'r bobl sy'n ddi-euog. Beth am wrando ar filwyr 2014.

**Milwr 1** (yn cario baner Israel.)
Does gen i ddim dewis ond gwisgo lifrau milwr. Mae pob un yn Israel yn gorfod gwneud eu rhan i fod yn filwr, gan fod y gwledydd o'n cwmpas am gael gwared â ni. Edrychwch ar eich map a gweld mor anodd yw hi i fyw ynghanol pobl sydd am ddileu ein gwlad a'n cenedl. Does neb am weld Arabiaid yn cael eu lladd, ac yn sicr nid ydym o blaid gweld y diniwed yn dioddef. Beth sydd gennym i'w wneud ond amddiffyn ein hawliau. Mudiad terfysgol Hamas sydd ar fai, nid ni.

**Milwr 2** (yn cario baner Hamas)
Aroswch am funud. Nid ni, ymladdwyr Hamas sydd ar fai. Pa ddewis sydd gennym ni? Poblogaeth sylweddol yn byw mewn carchar agored, mae rhywrai yn ei galw'n wlad. Carchar agored mwya'r byw yw'r Llain Orllewinol. Mae Israel yn ein rhwystro rhag cael masnachu'n deg, ac agor ein porthladdoedd. Mae cymaint o bobl y Llain Orllewinol yn dioddef afiechyd a diffyg cyfle i fyw o gwbl. Mae gennym yr hawl i fyw, a'r Israeliaid sy'n gyfrifol am ein sefyllfa amhosibl.

**Arweinydd**.
Arhoswch filwyr. Mae dwy ochr i bob stori, ac mae angen i ni feddwl a oes ffordd well o ddatrys eich sefyllfa na chodi arfau a dial bob tro. Mae hanes yn cynnig digon o dystiolaeth nad oes unrhyw un yn ennill mewn rhyfel.

**Milwr 3**. (yn cario baner Wcrain)
Eitha' gwir, rwy'n deall sefyllfa Israel yn iawn. Mae'r gwledydd a fu'n glwm gyda Rwsia yn gwybod am yr arth fawr a'i phawen greulon. Mae gennym ni yr hawl i fyw, yn rhydd o ddylawnad y Kremlin.

**Milwr 4** (yn cario baner Dwyrain yr Wcrain)
Falle fod e'n filwr o Wcrain, ond mae gan Ddwyrain yr Wcrain hawl i ddewis hefyd. Dyna pam rydym yn brwydro dros ein hunaniaeth ni. Gallwn gydymdeimlo gyda'r Arab ar y Llain Orllewinol.

**Arweinydd.**
Gyfeillion annwyl. Arhoswch. Onid yw pob un ohonom yn perthyn i'n gilydd. Nid drwy ladd mae ennill gelynion yn gyfeillion. Ydych chi'n cofio geiriau Iesu Grist a ddywedodd –

'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cant hwy eu galw yn blant i Dduw'.

Cristion o Gymro oedd Waldo. Ef holodd beth yw maddau, ac ateb drwy ddweud, ei bod yn "ffordd i fynd drwy'r drain at ochr hen elyn". Mae'n werth darllen ei gerdd ef yn sôn am y 'Tangnefeddwyr'.

*Gellir darllen y gerdd hon, neu a bod côr priodol ar gael i ganu'r geiriau. Byddai chwarae recordiad yn bosibl hefyd. Efallai bydd rhai am ganu neu wrando ar recordiad o'r geiriau 'Hawl i Fyw', gan Dafydd Iwan.*

Wrth gofio canmwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf eleni, mae'n amser cydnabod nad oes unrhyw un yn mynd i ryfel er mwyn bod yn greulon nac i hyrwyddo anghyfiawnder. Mae'n amser hefyd i chwilio am ffyrdd eraill i ddatrys ein gwrthdaro. Bydd Cristnogion ein byd yn awyddus i dystio i'r her i greu cymod. Dyna fu'r esiampl a welwyd yn Nicaragua, De'r Affrig a Gogledd Iwerddon. Gweddiwn am hynny heddiw.

**Darllen** 2 Corinthiaid 5: 17-19

**Gweddiwn.**
Sanctaidd Dduw, maddau i ni am dderbyn rhyfel, fel pe na bai ffordd arall. Maddau i'r ddynoliaeth am arfer creulondeb a difrawder. Boed i'r Eglwys ar draws y byd ddarganfod yr her i weithio o blaid

cymod ac i feithrin brawdgarwch rhwng pobloedd daear, i gerdded dros y pontydd ac ddod o hyd i'r ffordd drwy'r drain at ochr hen elyn. Amen.

**Emyn** C.Ff. 867 Heddwch ar ddaear lawr

**Y Fendith**.
Ar derfyn ein gwasanaeth Arglwydd, gofynnwn am dy fendith fel y gallwn ni a phobloedd y byd gerdded ymlaen mewn hedd a harmoni. Amen.